# CDLl2

# Ceredigion

**Cynllun Datblygu Lleol Newydd**

**2018 - 2033**

Draft

**Papur Cefndir: Amcanestyniadau o'r Boblogaeth ac Aelwydydd**

**Diweddariad ar gyfer y Strategaeth a Ffefrir**

**2019**

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

**Os hoffech chi gael y ddogfen hon mewn fformat arall, fel print bras neu gefndir lliw, cysylltwch â'r tîm Polisi Cynllunio drwy e-bost ldp@ceredigion.gov.uk neu dros y ffôn 01545 572123**

Draft

# Cynnwys


Nodyn i'r Darllenydd ii

1. Crynodeb Gweithredol 3
2. Cyflwyniad 4
3. Tabl Diweddaru 5
4. Y Cyd-destun Lleol 7
5. Materion Adolygu (Ysgogwyr) 7
6. Dadansoddiad (opsiynau ar gyfer rhoi sylw i'r mater) 8
7. Casgliadau / Argymhellion 19
8. Y Camau Nesaf 20


Drafft

# Nodyn i'r Darllenydd

Cyhoeddwyd y Papurau Pwnc a'r Papurau Cefndir Diweddariad ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Adnau yr un pryd (Rhagfyr 2010) ac maent yn dal i fod ar gael ar wefan y Cyngor neu ar ffurf copi papur ar gais.

Prif bwrpas y Papur Cefndir Diweddariad hwn yw dangos, ers i'r CDLl Adnau gael ei gyhoeddi ac i'r CDLl gael ei fabwysiadu wedi hynny yn Ebrill 2013, a fu unrhyw newidiadau yn y cyfarwyddyd, polisïau neu strategaethau perthnasol, gwybodaeth a thystiolaeth, neu faterion sydd wedi dod i'r amlwg trwy'r Adroddiad Monitro Blynyddol neu apeliadau, sy'n awgrymu bod y materion a gafodd sylw yn y CDLl mabwysiedig wedi newid neu nid ydynt yn cael eu trin yn llawn gan y polisïau.

Bydd pob papur pwnc yn darparu tabl cryno o unrhyw faterion sydd wedi codi ers i'r Cynllun gael ei adneuo, ac a yw'r rhain yn ysgogi'r angen am ymchwiliad pellach i weld a oes angen newid fel rhan o'r adolygiad o'r CDLl, neu esboniad pellach ynghylch pam nad oes angen newid. Os oes angen cael trafodaethau pellach caiff hyn ei gynnwys o fewn y papur diweddariad.

Draft

# 1. Crynodeb Gweithredol

1.1.1 Cafodd yr amcanestyniadau o'r boblogaeth ac aelwydydd sy'n sail i Gynllun Datblygu Lleol Ceredigion 2007-2022 eu cynhyrchu trwy ddefnyddio'r wybodaeth orau am enedigaethau, marwolaethau, ac ymfudo oedd ar gael ar y pryd. Ers hynny, bu ymdrech fawr ar ran Swyddfa'r Ystadegau Genedlaethol (ONS) i wella ystadegau ymfudo, yn rhannol mewn ymateb i'r nifer annisgwyl o fawr o bobl a fewnfudodd o wledydd Dwyrain Ewrop ar ôl iddynt ymaelodi â'r Undeb Ewropeaidd yn 2004.

1.1.2 Ers 2008 mae maint poblogaeth Ceredigion wedi cael ei diwygio'n gyson tuag i lawr, gan adlewyrchu'r newidiadau mewn methodoleg ONS ar gyfer dyrannu ymfudwyr i ardaloedd lleol. Yn dilyn Cyfrifiad 2011, cafodd yr amcangyfrifon canol blwyddyn o'r boblogaeth eu hail-seilio, sy'n drefn arferol yn dilyn Cyfrifiad. Yn achos Ceredigion, roedd hyn yn golygu y cafodd yr amcangyfrifon eu diwygio tuag i lawr.

1.1.3 Wrth baratoi ar gyfer Cyfrifiad 2021, mae ONS yn parhau i fireinio ei fethodoleg ar gyfer cynhyrchu amcangyfrifon canol blwyddyn, ac yn 2018 cyhoeddodd amcanestyniadau newydd ar gyfer 2012-2016 sydd unwaith eto wedi lleihau maint poblogaeth Ceredigion. Cafodd newid pellach mewn methodoleg, sy'n dileu myfyrwyr addysg uwch ar ddiwedd eu cyfnod astudio, ei gyflwyno ar gyfer amcangyfrifon canol blwyddyn 2017, a gyhoeddwyd hefyd yn 2018.

1.1.4 Mae'r amcanestyniadau o'r boblogaeth is-genedlaethol swyddogol diweddaraf ar gyfer Cymru yn seiliedig ar ddata 2014. Cyhoeddwyd prif amcanestyniad a phedwar amrywiolyn ac, at ddibenion y papur hwn, ystyrir y prif amrywiolyn ymfudo a'r amrywiolyn ymfudo 10 mlynedd yn weddol fanwl.

1.1.5 Y duedd gyfredol yn ôl yr holl ddata amcangyfrifon canol blwyddyn diweddar yw dirywiad araf ym maint poblogaeth Ceredigion. Ar yr un pryd, mae canran y bobl hŷn, ac yn arbennig y rhai hynaf oll, yn cynyddu.

Draft

1.1.6 Yn wyneb y lefel bresennol o ansicrwydd ynghylch Brexit a'r pwysau sydd ar sefydliadau addysg uwch, ynghyd ag uchelgais Cyngor Sir Ceredigion i ddenu mwy a gwell cyfleoedd cyflogaeth i'r sir, bernir ei bod yn ddoeth i fabwysiadu lefel y twf mewn aelwydydd a nodir yn y prif amcanestyniad fel sail ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol 2. Er y bydd yr angen am dai yn y sir yn llawer llai nag yr hyn a ragwelwyd yng Nghynllun Datblygu Lleol 2007-2022, bydd y senario hwn yn caniatáu ar gyfer twf cyfyngedig yn y sir.

# 2. Cyflwyniad

2.1.1 Mae'r Papur Cefndir Amcanestyniadau o'r Boblogaeth ac Aelwydydd (Rhagfyr 2011) yn ffurfio'r sail ar gyfer y nod polisi cyhoeddus allweddol, sef sicrhau cynaliadwyedd cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd trwy'r Cynllun Datblygu Lleol.

## 2.2 Cefndir i'r adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol

2.2.1 Yn dilyn y pedwerydd Adroddiad Monitro Blynyddol, roedd CDLl Ceredigion wedi tanio adolygiad yn ffurfiol, a chafodd Adroddiad yr Adolygiad ei baratoi a nododd fod yr amcanestyniadau o'r boblogaeth ac aelwydydd yn wahanol iawn i dueddiadau cyfredol. Mae'r papur cefndir diweddaru hwn yn adeiladu ar y papur gwreiddiol ac yn esbonio beth sydd wedi newid, a pha newidiadau caiff eu gwneud i sicrhau bod Cynllun Datblygu Lleol 2 (CDLl 2) yn addas at y diben.

## 2.3 Rôl y papur hwn

2.3.1 Mae'r papur hwn yn ystyried sut y mae'r amcangyfrifon canol blwyddyn o'r boblogaeth a'r amcanestyniadau o'r boblogaeth ac aelwydydd wedi newid ers i'r papur blaenorol gael ei ryddhau, ac mae'n esbonio sut mae'r newidiadau hyn yn dylanwadu ar ddatblygiad CDLl 2.

Draft

# 3. Tabl diweddaru

Mae'r tabl isod yn rhoi crynodeb o'r newidiadau sydd wedi digwydd neu faterion sydd wedi codi o ran yr amcanestyniadau o'r boblogaeth a thai ar gyfer y sir. Gall y rhain fod yn newidiadau mewn/polisïau, strategaethau newydd ac ati, newidiadau mewn/tystiolaeth neu wybodaeth newydd, neu'n faterion sydd wedi codi yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol neu apeliadau.

| Mater Adolygu / Newid Arfaethedig | Ffynhonnell / Ysgogiad | Dyddiad (Mis/ Blwyddyn) | Cam Gweithredu | Sylwadau pellach | Angen Adolygu'r Papur Cefndir? |
|---|---|---|---|---|---|
| Newid yn y gofynion poblogaeth a thai | Data'r Cyfrifiad, diwygiad ONS o amcangyfrifon canol blwyddyn | 2011, 2014, 2018 | Diwygio amcanestyniadau o'r boblogaeth ac aelwydydd tuag i lawr | Ers mabwysiadu'r CDLl, mae amcanestyniadau pellach o'r boblogaeth wedi cael eu rhyddhau sydd wedi arwain at ddiwygio'r amcanestyniadau tuag i lawr. Mae hyn yn esbonio'n rhannol y diffyg cyflenwi tai yn y CDLl fel y nodir gan sawl un o ddangosyddion yr Adroddiad Monitro Blynyddol. Mae hyn yn ei gwneud hi'n | Ie |

Draft

| Mater Adolygu / Newid Arfaethedig | Ffynhonnell / Ysgogiad | Dyddiad (Mis/ Blwyddyn) | Cam Gweithredu | Sylwadau pellach | Angen Adolygu'r Papur Cefndir? |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | ofynnol i'r Awdurdod ailystyried graddfa'r twf sy'n ofynnol yn CDLl2 a phenderfynu pa amcanestyniad o'r boblogaeth yw'r un mwyaf priodol i Geredigion ei ddefnyddio fel sail ar gyfer polisi. | |

### 3.1 Casgliad

3.1.1 Fel y nodir yn y tabl uchel, mae newidiadau mewn polisi/cyfarwyddyd/tystiolaeth/materion wedi arwain at yr angen i gael trafodaeth llawer mwy manwl ar gyfer y papur cefndir.

Draft

# 4. Y Cyd-destun Lleol

## 4.1 Cefndir

4.1.1 Mae'r Papurau Cefndir a ysgrifennwyd ar gyfer y Strategaeth a Ffefrir a'r Cynllun Adnau yn rhoi mwy o fanylion am yr amcanestyniadau o'r boblogaeth ac aelwydydd ar gyfer y sir. Mae'r manylion hynny yn parhau'n berthnasol ac felly ni chânt eu hailadrodd yma.

## 4.2 Y Sefyllfa Bresennol

4.2.1 Cafodd y CDLl ei fabwysiadu yn Ebrill 2013 a dechreuodd yr adolygiad cyntaf yn dilyn y pedwerydd Adroddiad Monitro Blynyddol yn 2017, a chyhoeddwyd Adroddiad yr Adolygiad a'r Cytundeb Cyflenwi yn 2018.

4.2.2 Mae Adroddiadau Monitro Blynyddol wedi cael eu cynhyrchu sy'n monitro effeithiolrwydd y CDLl yn erbyn yr hyn a ddywedwyd y byddai'n ei wneud. Tra bo gofynion anheddau yn gysylltiedig ag amcanestyniadau o'r boblogaeth ac aelwydydd, caiff cyflenwi anheddau eu trafod ar wahân.

# 5. Materion Adolygu (Ysgogwyr)

5.1.1 Mae tabl 1 yn Adran 3 yn crynhoi'r dadansoddiad o'r dystiolaeth newydd/wedi'i diweddaru.

## 5.2 Tystiolaeth

5.2.1 Ers i'r CDLl fod yn Gynllun Adnau, mae'r dystiolaeth ganlynol wedi cael ei rhyddhau/diweddaru:

- Canlyniadau Cyfrifiad 2011
- Amcanestyniadau o'r boblogaeth seiliedig ar ddata 2011 Llywodraeth Cymru
- Amcanestyniadau o'r boblogaeth seiliedig ar ddata 2014 Llywodraeth Cymru
- Diwygiadau ONS i'r amcangyfrifon canol blwyddyn o boblogaeth Ceredigion yn dilyn Cyfrifiad 2011 ac o ganlyniad i newidiadau i'r fethodoleg a mwy o fynediad i ffynonellau data gweinyddol.

Draft

5.2.2 Mae'r Adroddiadau Monitro Blynyddol wedi tynnu sylw at ddiffyg cyflenwi tai yn CDLl 1, ac mae hwn yn un o'r materion sylfaenol yn yr adolygiad. Mae'r diffyg cyflenwi ac felly'r lleihad yng nghyflenwad tir Cyd-astudiaethau Argaeledd Tir ar Gyfer wedi'i esbonio'n rhannol gan orddyrannu twf yn CDLl 1 yn dilyn yr amcanestyniadau afrealistig o aelwydydd a ddefnyddiwyd. Gosodwyd y gofyniad anheddau ar 400 o unedau y flwyddyn, rhywbeth sydd wedi cael ei gyflawni unwaith yn unig mewn 20 mlynedd (2008).

## 6. Dadansoddiad (opsiynau ar gyfer rhoi sylw i'r mater)

6.1.1 Cafodd yr **amcanestyniadau o'r boblogaeth** a ddefnyddiwyd ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion 2007-2022, a fabwysiadwyd yn 2013, eu paratoi'n wreiddiol gan y tîm Ymchwil a Dadansoddi yn 2009 gan ddefnyddio amcangyfrifiad Cyfrifiad 2001 a 15 mlynedd o ddata ymfudo. Fel rheol, defnyddir y cyfartaledd o'r pum mlynedd flaenorol o ddata ymfudo mewn amcanestyniadau swyddogol, ond y consensws barn ar y pryd oedd y byddai'r duedd fwy tymor hir yn fwy priodol. Cafodd yr amcanestyniadau eu hadolygu yn 2011, a chynhyrchodd y canlyniadau ffigurau ar gyfer twf yn y boblogaeth ac aelwydydd oedd ychydig yn uwch na'r rhai a seiliwyd ar ddata 2008 Llywodraeth Cymru, ond oedd yn cyfateb yn fras â'r hyn a ddarparwyd gan ofyniad anheddau cyffredinol o oddeutu 6,000 ar gyfer cyfnod y cynllun.

6.1.2 Cyfrifiad 2001 oedd y cyntaf i gofnodi myfyrwyr yn eu cyfeiriadau yn ystod y tymor. Yn 2004 rhybuddiodd ONS y gallai amcangyfrifon Cyfrifiad 2001 ar gyfer Ceredigion fod yn or-chwyddedig ac roedd maint amcanol poblogaeth Ceredigion eisoes yn dechrau lleihau yn yr amcangyfrifon canol blwyddyn o ganlyniad i Brosiect Gwella Ystadegau Poblogaeth ac Ymfudo (IMPS) y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) cyn Cyfrifiad 2011.

6.1.3 Roedd canlyniadau Cyfrifiad 2011 wedi cadarnhau bod amcanestyniadau o'r boblogaeth swyddogol seiliedig ar ddata 2008 ymhell o fod yn gywir, a bod amcangyfrifon Cyfrifiad 2001 yn rhy hael. I esbonio'r pwynt hwn, roedd ffigur amcangyfrifon canol blwyddyn ar gyfer 2007 yn 78,000 yn wreiddiol, ond roedd y prosiect wedi ei leihau i 76,800, ac ar ôl cyhoeddi canlyniadau




Draft

Cyfrifiad 2011 cafodd ei leihau ymhellach i 75,300, sef 3.5% yn is na'r cyfanswm gwreiddiol. Cafodd yr amcangyfrifon canol blwyddyn o 2002 i 2011 eu hail-seilio yn unol â chanlyniadau Cyfrifiad 2011. Defnyddiodd amcanestyniadau awdurdod lleol seiliedig ar ddata 2008 Llywodraeth Cymru yr amcangyfrifon canol blwyddyn heb eu diwygio fel y man cychwyn.

6.1.4 Fel rhan o'r symudiad i ffwrdd o Gyfrifiad bob deng mlynedd a thuag at ddefnyddio data gweinyddol, cafodd ONS fynediad newydd i nifer o ffynonellau data nad oeddent ar gael iddynt cyn hynny yr ystyrir eu bod yn gwella cywirdeb eu hamcanestyniadau o'r boblogaeth. Mae data gan Asiantaeth Ystadegol Addysg Uwch (HESA) yn arbennig o berthnasol ar gyfer Ceredigion oherwydd mae cyfran uchel iawn o'n llifoedd ymfudo yn ganlyniad i symudiadau myfyrwyr i mewn ac allan o addysg uwch. Wrth i'r mewnbynnau sydd ar gael newid, mae'r fethodoleg ar gyfer cynhyrchu amcangyfrifon canol blwyddyn hefyd wedi cael eu haddasu, a chafodd cyfres newydd o amcangyfrifon ar gyfer y cyfnod 2012 i 2016 ei rhyddhau ym Mawrth 2018.

6.1.5 Roedd y fethodoleg a ddefnyddiwyd i gynhyrchu amcangyfrifiad 2017 ychydig yn wahanol eto o ran y ffordd y mae'n delio â myfyrwyr, ond ni ddisgwylir unrhyw newidiadau pellach yn y ffordd y caiff amcangyfrifon canol blwyddyn eu cynhyrchu tan ar ôl i ganlyniadau Cyfrifiad 2021 gael eu rhyddhau. Mae'r newidiadau diweddar hyn wedi cyflymu'r lleihad graddol ym maint amcanol poblogaeth Ceredigion ers iddo gyrraedd uchafbwynt yn 2012 fel y dangosir yn Ffigur 1 isod. Mae'r amcangyfrifon hyn yn cyfeirio at faint go iawn y boblogaeth yn hytrach na'r maint amcanol, a chredir bod y fethodoleg ddiwygiedig wedi gwella ansawdd yr amcangyfrifon. Fodd bynnag, mae pob diwygiad wedi cael yr effaith o leihau ryw ychydig maint poblogaeth y sir. Mae'r barrau glas tywyll ar y graff yn dangos y ffigurau ar ôl y Cyfrifiad hyd at 2016, ac mae'r barrau glas golau yn dangos y cyfansymiau diwygiedig neu, ar gyfer 2017, yr amcangyfrifon canol blwyddyn a gynhyrchir gan y fethodoleg ddiwygiedig.

Draft





*Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi'i thrwyddedu o dan Drwydded Llywodraeth Agored fersiwn 3.0*

**Ffigur 1: Amcangyfrifon Canol Blwyddyn o'r Boblogaeth 2011-2017 a'r diwygiadau a wnaed yn 2018**

6.1.6 Yn amcangyfrifiad canol blwyddyn 2011, dim ond ychydig o fisoedd ar ôl y Cyfrifiad, dangosodd strwythur poblogaeth y sir yn glir iawn effaith myfyrwyr prifysgol ar ei chyfansoddiad oedran a rhyw, gydag uchafbwyntiau amlwg rhwng 18 a 22 oed fel y dangosir yn Ffigur 2 isod. Mae'r barrau hwyaf yn y pyramid poblogaeth ar gyfer gwrywod 20 oed (1500) a benywod 20 oed (1400).

Draft





*Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi'i thrwyddedu o dan Drwydded Llywodraeth Agored fersiwn 3.0*

**Ffigur 2: Strwythur Poblogaeth Ceredigion Canol Blwyddyn 2011**

6.1.7 Erbyn canol 2017, er bod rhai uchafbwyntiau o hyd yn oedran myfyrwyr Addysg Uwch, y nifer uchaf mewn unrhyw grŵp oedran yw 1100 o wrywod 21 oed a 1000 o fenywod 19 oed. Mae hyn yn adlewyrchu'r lleihad mewn recriwtio myfyrwyr i'r prifysgolion lleol, a gall lledaeniad ehangach niferoedd mwy ar draws y band oedran 20-30 ddangos naill ai fod ymddygiad myfyrwyr wedi newid neu fod myfyrwyr yn parhau yn y boblogaeth leol ar ôl iddynt gwblhau eu cwrs a gadael y sir. Mae dal symudiadau ymfudo pan fyddant yn digwydd yn parhau i fod yn heriol, er gwaetha'r defnydd o dechnegau mwy soffistigedig a mynediad i ffynonellau data ychwanegol.

Draft





*Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi'i thrwyddedu o dan Drwydded Llywodraeth Agored fersiwn 3.0*

**Ffigur 3: Strwythur y boblogaeth yn ôl oedran a rhyw yng Ngheredigion Amcangyfrifiad Canol Blwyddyn 2017**

6.1.8 Ers 2012, unig gydran newid yn y boblogaeth sydd wedi bod yn gadarnhaol yn gyson yn lleol oedd ymfudo net rhyngwladol. Mae newid naturiol ac ymfudo mewnol net wedi bod yn lleihau maint y boblogaeth yn araf, fel y dangosir yn Ffigur 4 isod.

Draft




*Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi'i thrwyddedu o dan Drwydded Llywodraeth Agored fersiwn 3.0*

**Ffigur 4: Cydrannau newid poblogaeth yng Ngheredigion 2012-2017**

6.1.9 Mae oedran canolrif poblogaeth y sir wedi cynyddu o 42.9 yn 2011 i 45.7 yn 2017. Mewn cymhariaeth, ar gyfer Cymru gyfan mae wedi cynyddu o 41.5 i 42.5, ac yng Nghaerdydd mae wedi lleihau ychydig o 33.8 i 33.6 dros yr un cyfnod. Mae poblogaeth Ceredigion yn heneiddio ac, yn 2017, amcangyfrifir bod 24.6% o'r boblogaeth yn 65 oed neu'n hŷn. Er bod cyfradd y cynnydd mewn disgwyliad oes wedi oedi yn ddiweddar, rhagwelir y bydd y boblogaeth yn parhau i heneiddio. Bydd unrhyw leihad yn y dyfodol yn nifer y myfyrwyr sy'n cael eu recriwtio yn cyflymu'r broses hon.

6.1.10 Mae amcanestyniadau o'r boblogaeth is-genedlaethol diweddaraf seiliedig ar ddata 2014 Llywodraeth Cymru yn defnyddio pum mlynedd o ddata i gynhyrchu tueddiadau mewn genedigaethau, marwolaethau, ymfudo mewnol a rhyngwladol (ac eithrio ar gyfer yr amrywiolyn ymfudo 10 mlynedd).

6.1.11 Mae pedwar amcanestyniad amrywiol wedi'u cynhyrchu wrth ochr y prif amcanestyniad ar gyfer senarios ymfudo gwahanol, yn amrywio o amcangyfrifiad ymfudo sero, amcangyfrifiad ymfudo is, ac amcangyfrifiad uwch i un sy'n seiliedig ar blaenamcanu y patrymau ymfudo cyfartalog dros y deng mlynedd ddiwethaf. Mae'r ffigurau dilynol ar gyfer cyfanswm maint y



Draft

boblogaeth ar gyfer 2018-2033 i'w gweld yn Nhabl 1 isod, ynghyd â ffigur dechreuol 2014 a chyfanswm amcanol 2017, i'w gymharu yn erbyn yr amcangyfrifon canol blwyddyn diwygiedig. Erbyn hyn mae diwygiadau 2018 i'r amcangyfrifon canol blwyddyn wedi lleihau amcangyfrifiad 2014 i 75,133, ac mae amcangyfrifon canol blwyddyn 2017 yn 73,076.

**Tabl 1: Cymharu amcanestyniadau amrywiol o'r boblogaeth seiliedig ar ddata 2014 ar gyfer Ceredigion**

| **Amrywiolyn** | **2014** | **2017** | **2018** | **2023** | **2028** | **2033** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Prif amcanestyniad** | *75,425* | *76,092* | *76,324* | *77,624* | *79,087* | *80,499* |
| **Amrywiolyn is** | *75,425* | *76,009* | *76,186* | *77,056* | *77,909* | *78,614* |
| **Amrywiolyn uwch** | *75,425* | *76,135* | *76,395* | *77,905* | *79,796* | *81,795* |
| **Amrywiolyn ymfudo sero** | *75,425* | *75,360* | *75,442* | *76,570* | *77,825* | *78,045* |
| **Amrywiolyn ymfudo cyfartalog deng mlynedd** | *75,425* | *75,767* | *75,893* | *76,607* | *77,261* | *77,597* |

*Ffynhonnell: StatsCymru*

6.1.12 Mae'r amrywiolyn ymfudo sero yn ystumio'n fawr y nifer amcanol o genedigaethau oherwydd ei fod yn cadw nifer fawr o bobl ifanc yn y grwpiau oedran myfyrwyr yn y boblogaeth (pan fyddent wedi cwblhau eu hastudiaethau a gadael fel rheol), tra bo amrywiolion ymfudo uwch ac is yn cynhyrchu niferoedd sy'n uwch na'r senario ymfudo 10 mlynedd.

6.1.13 Mae'r prif amcanestyniad yn darparu mesur o duedd ganolog o'r tueddiadau sylfaenol. Mae'r amrywiolyn ymfudo 10 mlynedd yn gwanedu effeithiau'r nifer uwch na chyfartalog o fyfyrwyr yn y cyfnod yn arwain at dreblu ffioedd i £9000 y flwyddyn, ac yn creu'r twf isaf yn y boblogaeth. Gan ei fod yn ymddangos erbyn hyn bod llifoedd ymfudo diweddar yn is na'r duedd ymfudo 10 mlynedd, mae'n ymddangos yn ddoeth i ystyried y ddau amcanestyniad hyn o ran newid yn nifer yr aelwydydd yn unig.

6.1.14 Mae'n bwysig nodi bod y ddau senario yn caniatáu ar gyfer rhywfaint o uchelgais ar gyfer twf. Byddai cymhwyso'r tueddiadau diweddaraf un yn




Draft

awgrymu cwtogi, er y byddai nifer yr aelwydydd, oherwydd ei fod yn cael ei ysgogi'n bennaf gan y cynnydd yn nifer y bobl sy'n byw ar eu pennau eu hunain, yn parhau i godi ryw ychydig.

6.1.15 Ar y sail hon, dim ond dau o'r amcanestyniadau a drafodir ymhellach yma, h.y. y prif amcanestyniad a'r fersiwn ymfudo 10 mlynedd. Dangosir fersiwn 2006-, 2008-, 2011- a ddwy fersiwn o amcanestyniadau seiliedig ar ddata 2014 Llywodraeth Cymru yn Ffigur 5 isod, ochr yn ochr ag iteriadau amrywiol o amcangyfrifon canol blwyddyn, cyn ac ar ôl y Cyfrifiad a chyn ac ar ôl diwygiadau methodolegol 2018. Roedd pob un o'r amcanestyniadau yn seiliedig ar y data gorau oedd ar gael pan gawsant eu cynhyrchu, ond mae'r canlyniadau yn amrywio'n fawr. Dylid nodi bod yr amcanestyniadau a'r amcangyfrifon o'r boblogaeth yn lleihau gyda phob cyfrifiad olynol.

Draft




**Ffigur 5: Cymharu Amcangyfrifon Canol Blwyddyn Ceredigion ac Amcanestyniadau o'r Boblogaeth Llywodraeth Cymru**

6.1.16 Roedd yr amcanestyniadau o'r boblogaeth a gynhyrchwyd ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol 1 2007-2022 hefyd wedi defnyddio'r wybodaeth orau ar dueddiadau mewn genedigaethau, marwolaethau ac ymfudo oedd ar gael ar y pryd, ond gyda thuedd ymfudo a gyfrifwyd o 15 mlynedd o ddata yn hytrach na'r cyfnod safonol o bum mlynedd.

6.1.17 Mae **amcanestyniadau o aelwydydd** yn deillio o amcanestyniadau o'r boblogaeth trwy ddileu'r boblogaeth gymunedol yn gyntaf, h.y. y rhai sy'n byw mewn neuaddau preswyl, cartrefi gofal ac ati, yna dyrannu gweddill yr aelwydydd o feintiau a mathau amrywiol ar sail oedran a rhyw. Mae maint cyffredinol aelwydydd wedi bod yn lleihau ers amser ond mae'n ymddangos bod y cwymp ariannol wedi arafu cyfradd y lleihad ryw ychydig dros y deng mlynedd diwethaf.

6.1.18 Dangosir y cynnydd amcanol yn nifer yr aelwydydd ar gyfer y prif amcanestyniad a'r amrywiolyn ymfudo 10 mlynedd yn Nhabl 2. I newid nifer yr aelwydydd i anheddau, mae'r niferoedd yn cael eu cynyddu gan y gyfradd 10% anheddau gwag o ganlyniadau Cyfrifiad 2011.

**Tabl 2: Twf amcanol yn nifer yr aelwydydd 2018-2033**

| Cyfanswm Aelwydydd | 2018 | 2023 | 2028 | 2033 | Newid 2018-2033 | Gyda 10% lwfans anheddau gwag |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Prif Amcanestyniad** | *32,322* | *33,229* | *33,972* | *34,538* | *2,216* | *2,437* |
| **Amrywiolyn Ymfudo 10 mlynedd** | *32,232* | *32,920* | *33,337* | *33,560* | *1,328* | *1,461* |

*Ffynhonnell: Amcanestyniadau o aelwydydd StatsCymru yn ôl awdurdod lleol, math o aelwyd, a blwyddyn*



Draft

6.1.19 Mae'r cynnydd mewn aelwydydd yn llawer is ar gyfer y pymtheg mlynedd 2018-2033 amcanol ar gyfer cyfnod y Cynllun Datblygu Lleol gwreiddiol sef 2007-2022. Nifer yr anheddau newydd a gafodd eu cwblhau go iawn rhwng 2007-8 a 2017-8 oedd 2230, sy'n sylweddol is na'r angen amcanol mewn ymateb i'r twf yn y boblogaeth.

6.1.20 Mae'r model a ddefnyddiwyd i droi poblogaeth yn aelwydydd yn cynhyrchu canlyniadau yn ôl maint aelwydydd, ac mae cymdeithas sy'n heneiddio yn tueddu i brofi cynnydd mawr yn nifer yr aelwydydd un person. Mae dadansoddiad mwy manwl yn ôl math o aelwyd ar gyfer y ddwy fersiwn o'r amcanestyniadau yn cael ei ddarparu yn Nhabl 2 isod, sy'n dangos bod aelwydydd un person yn cyfrif am lawer o'r twf, a bod gan hyn oblygiadau ar gyfer y math o stoc tai sy'n ofynnol i ddarparu ar gyfer anghenion yn y dyfodol.

**Tabl 3: Dadansoddiad manwl o dwf aelwydydd yn ôl math 2018-2033 fesul amrywiolyn**

| **Prif Amcanestyniad** | **2018** | **2023** | **2028** | **2033** | **Newid 2018-2033** |
|---|---|---|---|---|---|
| Math o aelwyd | | | | | |
| 1 person | 11,189 | 11,854 | 12,303 | 12,711 | 1,522 |
| 2 berson (dim plant) | 10,598 | 10,708 | 10,750 | 10,534 | -64 |
| 2 berson (1 oedolyn, 1 plentyn) | 800 | 857 | 926 | 1,017 | 218 |
| 3 pherson (dim plant) | 2,330 | 2,399 | 2,435 | 2,449 | 119 |
| 3 pherson (2 oedolyn, 1 plentyn) | 1,539 | 1,542 | 1,577 | 1,642 | 102 |
| 3 pherson (1 oedolyn, 2 blentyn) | 363 | 351 | 351 | 363 | 0 |
| 4 person (dim plant) | 888 | 966 | 1,016 | 1,055 | 167 |
| 4 person (2+ oedolyn, 1+ plentyn) | 2,314 | 2,271 | 2,294 | 2,388 | 74 |
| 4 berson (1 oedolyn, 3 phlentyn) | 140 | 142 | 150 | 162 | 22 |
| 5+ person (dim plant) | 607 | 596 | 583 | 565 | -42 |
| 5+ person (2+ oedolyn, 1+ plentyn) | 1,519 | 1,513 | 1,556 | 1,624 | 105 |
| 5+ person (1 oedolyn, 4+ plentyn) | 35 | 32 | 29 | 28 | -7 |



Draft

| Amrywiolyn Ymfudo 10 mlynedd | 2018 | 2023 | 2028 | 2033 | Newid 2018-2033 |
|---|---|---|---|---|---|
| Math o aelwyd | | | | | |
| 1 person | 11,217 | 11,842 | 12,199 | 12,552 | 1,334 |
| 2 person (dim plant) | 10,569 | 10,599 | 10,560 | 10,314 | 255 |
| 2 berson (1 oedolyn, 1 plentyn) | 807 | 867 | 926 | 992 | 184 |
| 3 person (dim plant) | 2,278 | 2,295 | 2,293 | 2,281 | 3 |
| 3 pherson (2 oedolyn, 1 plentyn) | 1,549 | 1,550 | 1,555 | 1,564 | 15 |
| 3 pherson (1 oedolyn, 2 phlentyn) | 368 | 360 | 360 | 362 | -6 |
| 4 person (dim plant) | 849 | 886 | 913 | 944 | 95 |
| 4 person (2+ oedolyn, 1+ plentyn) | 2,335 | 2,304 | 2,308 | 2,332 | -3 |
| 4 berson (1 oedolyn, 3 phlentyn) | 142 | 145 | 151 | 156 | 14 |
| 5+ person (dim plant) | 554 | 515 | 496 | 478 | -76 |
| 5+ person (2+ oedolyn, 1+ plentyn) | 1,528 | 1,523 | 1,547 | 1,558 | 31 |
| 5+ person (1 oedolyn, 4+ plentyn) | 36 | 32 | 29 | 27 | -9 |

*Ffynhonnell: Amcanestyniadau o aelwydydd StatsCymru yn ôl awdurdod lleol, math o aelwyd, a blwyddyn*

# 7. Casgliadau / Argymhellion

## 7.1 Newid Arfaethedig

7.1.1 Yn hanesyddol, mae unrhyw dwf ym mhoblogaeth Ceredigion wedi digwydd o ganlyniad i fudo i mewn i'r sir. Mae marwolaethau wedi bod yn fwy na genedigaethau yn y sir ers peth amser, ac felly mae newid naturiol yn negyddol. Mae tueddiadau cyfredol yn awgrymu bod niferoedd y boblogaeth yn dirywio'n araf, yn rhannol oherwydd y pwysau ar sefydliadau addysg uwch a llai o bobl ifanc 18 oed yn y boblogaeth, a'r ansicrwydd ynghylch Brexit, ar y cyd â'r cynnydd yn oedran pensiwn y wladwriaeth a threfniadau pensiwn galwedigaethol llai hael. Fodd bynnag, mae sawl menter ar y gweill ar hyn o bryd trwy'r gwaith a wneir gan Dyfu Canolbarth Cymru sy'n ceisio gwella



Draft

cyfleoedd cyflogaeth yn y sir, ac felly denu mwy o bobl i aros yma neu symud i'r ardal.

7.1.2 I gydnabod yr ymdrechion adfywio economaidd hyn, argymhellir bod y cynnydd mewn aelwydydd a ddarperir gan y prif amcanestyniad yn cael ei fabwysiadu ar gyfer y cyfnod 2018-2033. Mae hyn yn cynrychioli gofyniad addasiad di-bolisi ar gyfer 2437 o aelwydydd dros gyfnod o 15 mlynedd Cynllun Datblygu Lleol 2.

7.1.3 Nid yw'r twf tai sy'n gysylltiedig â Bargen Twf newydd 'Tyfu Canolbarth Cymru' yn debygol o gael effaith fawr ar y gofyniad tai ym mlynyddoedd cynnar y Cynllun, ac ystyrir y dylid cynnwys hyn yn y Cynllun yn yr adolygiad nesaf.

7.1.4 Er mwyn sefydlu'r ffigur ar gyfer cyflenwi tai, mae angen gwneud addasiad polisi i'r gofyniad tai er mwyn darparu ar gyfer anghenion sy'n newid, dewis, hyblygrwydd, adnewyddu'r stoc tai a safleoedd nad ydynt yn cael eu datblygu. Cynigir y dylai'r ffigur fod yn 23%.

# 8. Y Camau Nesaf

**8.1** Cytuno i fabwysiadu prif ffigur amcanestyniad o aelwydydd ar gyfer y cyfnod 2018-2033 fel y gofyniad tai, er mwyn darparu ar gyfer twf yn y boblogaeth yn y dyfodol ac anghenion sy'n newid.

**8.2** Manteisio ar waith yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol[1] i lywio'r gofynion manwl yn y cymysgedd tai ar gyfer y Cynllun Adnau.

**8.3** Ar y cyd â'r newidiadau arfaethedig i'r strategaeth anheddu[2] ystyried y ffordd orau o ddyrannu'r twf hwn ar draws yr hierarchaeth.

[1] yn cael ei gwblhau ar hyn o bryd (Chwefror 2019)

[2] Papur Cefndir Diweddaru'r Strategaeth Anheddu 2019



Draft